

cymdeithas
yr **IAITH** gymraeg

'Moderneiddio' Iaith Sir Gâr.

Effaith cau Ysgolion
Pentrefol ar gyfrwng
yr addysgu yn Sir Gâr.



**Mai
2005**

Cefndir

Ym mis Hydref 2004, cyhoeddodd swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin strategaeth “*Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg*” sydd yn cynnwys cynlluniau i gau dros 30 o ysgolion pentrefol yn y sir gydag ansicrwydd am ddyfodol nifer o rai eraill hefyd. Bu Cymdeithas yr Iaith yn arwain galwad ar i'r Cyngor Sir gynnal trafodaeth eang a chynhwysol ar y strategaeth a'r egwyddorion sy'n sail iddi cyn symud ymlaen ag unrhyw gynlluniau i amddifadu cymunedau pentrefol o'u hysgolion. Casglwyd 5,000 o enwau ar ddeiseb yn gwrthwynebu'r cynlluniau ac fe ffurfiwyd Fforwm Ysgolion Cynradd Sir Gâr sydd bellach yn gweithredu fel llais i'r cymunedau sydd dan fygythiad yn sgil cynlluniau'r Cyngor.

Gwrthod pob galwad am drafodaeth gyhoeddus ar egwyddorion y strategaeth wna arweinyddiaeth y Cyngor, gan fynnu dro ar ôl tro y daw cyfle i drafod pob achos yn unigol trwy'r broses ymgynghori statudol y mae'n rhaid ei dilyn pan fydd yr awdurdod addysg yn cyflwyno unrhyw argymhelliad i gau ysgol, Addawyd yn wreiddiol y byddai amserlen ar gyfer gweithredu camau cyntaf y strategaeth yn cael ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2005. Ym mis Mai 2005, parhau i aros am yr amserlen hon y mae'r rhieni, staff yr ysgolion a phawb sy'n poeni ynghylch dyfodol y cymunedau dan fygythiad. Y wybodaeth ddiweddaraf yw bod cynlluniau wedi'u paratoi ac y bydd Cyfarwyddwr newydd yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn eu rhyddhau “yn fuan ar ôl hanner tymor”.

Yn wyneb yr oedi hwn ac anfodlonrwydd arweinwyr Cyngor Sir Gâr i ymgynghori o ddifrif ynglŷn â seiliau'r strategaeth, mae'r drafodaeth gyhoeddus wedi'i harwain gan rai sy'n poeni am y cymunedau sydd dan fygythiad. Hyd yn hyn, mae'r dadleuon wedi canolbwyntio ar effaith cau ysgolion ar gymunedau pentrefol ac mae trafodaeth ar impact ieithyddol y cynlluniau wedi'u seilio ar rôl a photensial ysgol bentrefol yn cynnal a datblygu cymunedau Cymraeg.

Yn y papur hwn, ystyriwn oblygiadau cynlluniau Cyngor Sir Gâr mewn perthynas uniongyrchol â chyfrwng addysgu plant yn y sir. **Cyflwynwn dystiolaeth sy'n dangos y gall y strategaeth arwain yn uniongyrchol at leihad sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Gâr ac y bydd yn tanseilio'r polisi y brwydrwyd mor galed i'w gyflwyno – sef cyflwyno addysg yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cymunedau Cymraeg trwy ysgolion Categori A.**

Mapio'r Dirywiad mewn Addysg Gymraeg

Nid yw Addysg Gymraeg na chyfrwng addysgu yn cael eu crybwyll o gwbl yn strategaeth "*Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg*". Er gwaethaf galwadau arnynt i ymgynghori ynglŷn ag effeithiau'r strategaeth ar addysg Gymraeg, nid yw Cyngor Sir Gâr wedi cyhoeddi unrhyw wybodaeth bendodol ynghylch cyfrwng addysgu yn yr ysgolion newydd y bwriedir eu hagor nac ychwaith wedi son am oblygiadau ieithyddol trosglwyddo disgyblion o ysgolion pentrefol fyddai'n cau i ysgolion eraill sy'n bodoli eisoes. Mae'n amlwg felly nad yw addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn ystyriaeth i swyddogion y Cyngor wrth iddynt lunio'u strategaeth.

Yn wyneb methiant y Cyngor Sir i gyflwyno unrhyw wybodaeth ar y mater hwn, nid oes ffigyrau manwl ar gael sy'n dangos yn union faint o newid fyddai ym mhatrwm darpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion cynradd Sir Gâr o weithredu strategaeth *MDdA*. Fodd bynnag, trwy edrych ar gynlluniau ad-drefnu sydd eisoes wedi mynd rhagddynt neu sydd ar y gweill yn y Sir, gellir rhagweld y newidiadau fyddai'n digwydd yn y rhan fwyaf o achosion yn ogystal ag adnabod rhai achosion ble mae elfen gref o ansicrwydd ynglŷn â statws ieithyddol ysgolion o dan y drefn newydd arfaethedig.

Mae'r cynlluniau i ad-drefnu addysg gynradd sydd eisoes wedi digwydd yn Sir Gâr yn dilyn y patrwm canlynol:

- 1) Lle bo mwy mwy nag un ysgol yn cau mewn ardal ac un "ysgol newydd" yn cael ei hagor ar gyfer y dalgylch, mae'r "ysgol newydd" wedi bod o'r un categori iaith â'r rhai a gaewyd. Dyma'r canlyniad yn ardaloedd Pencader, Llanboidy a Chwmaman ble y caewyd nifer o ysgolion Categori A a chreu ysgol Categori A newydd yn eu lle. Dyma'r canlyniad a ddaw hefyd trwy'r cynllun sydd ar y gweill i gyfuno ysgolion Categori B yn Llwynhendy a chreu ysgol Categori B newydd.
- 2) Lle bo ysgol yn cau a'r dalgylch yn cael ei ymgorffori yn nalgylch ysgol arall, mae'r ysgol y trosglwyddir iddi yn cadw'r un categori iaith. Dyma ddigwyddodd wrth i ysgol Categori A Llanddowror gau â'i dalgylch ddod yn rhan o ddalgylch Ysgol Griffith Jones sydd â ffrydiau A/B.

O gymryd y patrwm uchod fel cynsail, byddai gweithredu'r strategaeth *MDdA* yn sicr o arwain at ddirwyriad yn y niferoedd sy'n derbyn addysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Gâr. Byddai degau o gymunedau sy'n cael eu gwasanaethu gan ysgol bentrefol Categori A ble mae'r addysg yn cael ei ddarparu yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg yng

nghalon y gymuned yn colli'r ased hon. Mewn nifer o achosion, byddai **rhaidd** i rieni mewn cymunedau o'r fath ddewis rhwng anfon eu plant i ysgolion neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg. Ymhellach, byddai absenoldeb ysgol o fewn eu cymuned yn sicr o gymell rhagor o rieni i ystyried eu opsiynau o ran danfon eu plant i ysgolion eraill hyd yn oed pan fyddant wedi'u lleoli'n swyddogol o fewn dalgylch newydd ysgol Categori A yn unig.

Mae manylion y newidiadau tebygol i gategoriâu iaith yr ysgolion fyddai'n gwasanaethu cymunedau pentrefol Sir Gâr o weithredu'r cynlluniau yn y strategaeth *MDdA* fel a ganlyn:

- Byddai 30 o ysgolion pentrefol Categori A yn cau gydag ansicrwydd am ddyfodol nifer o rai eraill.
- Mewn 13 o'r cymunedau hyn, byddai rhaid dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg oherwydd eu bod yn dod i ddalgylch ysgol â ffrydiau A/B neu ysgolion A/B ar wahân. Cyfanswm y plant yn yr ysgolion hyn yw 477.
- Byddai 1 o'r cymunedau hyn yn dod yn rhan o ddalgylch ysgol Categori B yn unig. Hynny yw, byddai ysgol gyfrwng Cymraeg Categori A yn cau a disgwyl i blant y gymuned honno drosglwyddo i ysgol Categori B! Nifer y plant yn yr ysgol hon yw 21.5.
- Mewn un achos, yn ardal Cross Hands, cynigir agor dwy ysgol i wasanaethu clwstwr o bentrefi yn lle'r bedair ysgol bentrefol Categori A presenol. Mae hwn yn ddatblygiad sydd heb gynsail ac mae perygl y byddai un o'r ysgolion hyn yn cael ei dynodi'n Categori B a'r llall yn Categori A. Gan fod Cyngor Sir Gâr bellach yn swyddogol yn ystyried y clwstwr o bentrefi yn yr ardal hon fel "Ardal Drefol", byddai rhannu plant y pentrefi rhwng ysgolion Categori A a B yn gyson â'r patrwm yn nhrefi'r Sir. Cyfanswm y plant yn yr ysgolion hyn yw 365.5!

Rhoddir manylion ynghylch yr ysgolion a gynhwysir yn y ffigyrau uchod yn yr Atodiad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mae'r strategaeth yn nodi ymhellach y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal allai arwain at gau ysgolion Categori A Abergwili, Meidrim, Abernant, Llangynog a Llanfynydd. Er na nodir cynlluniau pendant, o ystyried eu lleoliad, mae posibilrwydd cryf y bydd dalgylchoedd y mwyafrif o'r ysgolion hyn yn dod yn ddalgylchoedd A/B â phlant yn cael eu rhannu rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Cyfanswm y plant yn yr ysgolion hyn yw 153.

Casgliad

O weithredu eu strategaeth *Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg*, bydd Cyngor Sir Gâr i bob pwrpas yn chwalu'r polisi a etifeddwyd gan Gyngor Sir Dyfed o ddarparu addysg yng nghymunedau pentrefol Cymraeg y Sir yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Y norm ar hyn o bryd ym mhentrefi Cymraeg Sir Gâr yw bod plant y pentref yn derbyn eu haddysg yn yr ysgol Categori A leol. Mae rhieni sy'n Gymry Cymraeg, yn ddysgwyr neu'n ddi-Gymraeg yn fodlon â'r drefn hon a thrwy hynny, mae modd i blant mewnfudwyr gael eu cymathu'n rhan o'r gymuned Gymraeg. O newid i drefn ble mae rhaid i blant deithio allan o'r gymuned leol i dderbyn eu haddysg, mae'n anorfod y bydd nifer o rieni yn dewis yr opsiwn o addysg cyfrwng Saesneg sydd ar gael iddynt – i nifer o rieni di-Gymraeg yn ogystal â rhai sydd â diffyg hyder yn eu hiaith, dyna fyddent yn ei weld fel y peth naturiol i'w wneud neu'r opsiwn saffaf lle bo rhaid dewis y naill opsiwn neu'r llall.

P'un ai trwy fwriad ynteu trwy esgeulustod y daeth swyddogion Cyngor Sir Gâr i gynnig yr ymosodiad hwn ar addysg cyfrwng Cymraeg, yn sicr ni fu unrhyw fath o ymgynghori na thrafodaeth agored ar y mater hwn. Mae'r wybodaeth a gyflwynwn yn yr adroddiad hwn yn dystiolaeth bellach o'r angen i gynnal ymgynghoriad eang a thrylwyr ar yr egwyddorion sy'n sail i strategaeth *Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg* cyn mynd ati i weithredu fesul tipyn ar y cynlluniau a gynhwysir yn y strategaeth. Galwn eto ar y Cyngor Sir i gynnal ymgynghoriad o'r fath gan drafod o ddifrif a chyda meddwl agored gyda chymunedau'r Sir yn hytrach na cheisio gorfodi un patrwm a ddewiswyd gan weinyddwyr canolog ar bawb. Fel arall, bydd y polisi iaith arloesol y brwydrwyd mor galed drosto yn cael ei chwalu'n ddisymwyth heb drafodaeth ar yr oblygiadau ac fe eir yn ôl, mewn nifer o ardaloedd, i'r hen bolisi o genhedlaeth yn ôl o orfodi dewis unigol.

Cymdeithas yr Iaith

Rhanbarth Caerfyrddin

Mai 2005

ATODIAD

Newidiadau tebygol yng nghategori iaith dalgylchoedd ble bwriedir cau ysgolion pentrefol

Nodir niferoedd disgyblion pob ysgol fel y'u nodir yn Llawlyfr Cyngor Sir Gâr, "Ysgolion Sir Gaerfyrddin, Gwybodaeth i Rienï 2004-2005"

<p>A > A/B</p> <p>Maesybont (17) Nantygroes/Milo (44) Carwe (80) Ffairfach (63) Trap (16) Cwmifor (23) Capel Iwan (24) Capel Cynfab (Cynghordy) (30) Cil y Cwm (30) Llansaint – Ysgol y Fro (14) Idole / Cwmffrwd – Ysgol y Fro (17) Blaenau (91) Mynyddygarreg (28)</p> <p>Ac o bosibl Abergwili (44), Meidrim (50), Abernant (32), Llangynog (27)</p> <p>Yn ogystal, mae ansicrwydd ynghylch categorïddio 2 ysgol newydd Cross Hands (112.5), Drefach (67), Gorslas (109), Cefneithin (68)</p>	<p>A > A</p> <p>Cwmgwili (26) Llansawel (15) Talylychau (56) Caeo (26) Brechfa (39) Rhydcymerau (22.5) Ponthenri (55) Llansadwrn (18) Cefnbrynbrain (26) Bancffosfelen (54) Mynyddcerrig (17) Llangyndeyrn – Ysgol y Fro (25) Llanarthne (36)</p> <p>Ac o bosibl Llanfynydd (25)</p>
<p>A > B</p> <p>Llangain (21.5)</p>	<p>B > B</p> <p>Tremoilet (58.5) Llanedi (32)</p>